# Hysbyseb Swydd



Rôl Swydd

Cynorthwyydd Gofal Dydd Cŵn

Tâl:

£8.00 i £8.50 yr awr

Oriau:

20 awr yr wythnos

Contract:

Rhan-amser

## Ynglŷn â'r Rôl:

Rydym am benodi Cynorthwyydd Gofal Dydd Cŵn dibynadwy, trefnus a hyderus bydd eich rôl yn llawn amrywiaeth, gyda llawer o wahanol ddyletswyddau i'ch cadw'n brysur. Disgwylir i chi wneud yr holl dasgau hyn:

- Cyfarfod a chyfarch cleientiaid pan fyddan nhw'n cyrraedd, gan wneud unrhyw nodiadau ychwanegol am iechyd a hapusrwydd y cŵn y diwrnod hwnnw.
- Cyflwyno cŵn newydd i'r grŵp a'u trosglwyddo i'r aelod o staff sy'n gyfrifol am y grŵp hwnnw gydag unrhyw wybodaeth ychwanegol.
- Creu a chymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog ar gyfer eich grŵp.
- Diddanu pob ci sydd yn eich gofal.
- Adnabod ymddygiad anarferol a gweithredu'n gyflym.
- Gwaith twtio cŵn a thrin cŵn sylfaenol.
- Glanhau a gofal cyffredinol o'r ganolfan gofal dydd.

Gan fod hon yn rôl mor brysur, bydd angen pob math o sgiliau a phrofiad arnoch chi. I fod â chyfle i gael y swydd hon, dylech chi:

- Fod yn gyfforddus ac yn hyderus yn trin cŵn o bob brid a maint.
- Bod â phrofiad o weithio gyda chŵn.
- Mwynhau gweithio fel rhan o dîm.
- Bod ag agwedd gadarnhaol.
- Bod yn barod i weithio ym mhob tywydd.

Gwnewch gais ysgrifenedig gyda chopi o'ch CV ac e-bost eglurhaol yn egluro pam rydych chi'n meddwl y byddech chi'n addas ar gyfer y swydd hon. Math o Swydd: Contract Parhaol
Isafswm o 20 awr yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Math o Swydd: Rhan-amser
Cyflog: £8.00 i £8.50 yr awr
Profiad: Trin cŵn: 1 flwyddyn

pdsa
SAVING PETS CHANGING LIVES

# GetPetWise

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21 Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585

pdsa.org.uk